

Adran 1

Crynodeb gweithredol

- 1.1 Mae Ofcom yn credu'n gryf y dylai defnyddwyr sydd â nam ar eu clyw a/neu nam ar eu golwg allu cael gafael ar raglenni teledu – boed hynny ar deledu sy'n cael ei ddarlledu neu "ar-alwad". Mae teledu'n gallu bod yn hollbwysig o ran cymryd rhan a chael eich cynnwys mewn bywyd cymdeithasol a diwylliannol, ond er mwyn i nifer o bobl sydd â nam ar eu clyw a/neu nam ar eu golwg allu gwneud hynny mae'n rhaid i raglenni gynnig is-deitlau, disgrifiadau sain neu arwyddo ("gwasanaethau mynediad" ydy'r enw ar y rhain).
- 1.2 Mae gan Ofcom ddyletswydd statudol i annog darparwyr gwasanaethau rhaglenni ar-alwad i sicrhau bod mwy a mwy o'u gwasanaethau ar gael i bobl sydd â nam ar eu golwg a/neu ar eu clyw. Er bod hyn wedi gwella ar wasanaethau rhaglenni ar-alwad, mae bylchau mawr yn dal i fodoli wrth gymharu â theledu darlledu¹.
- 1.3 Un o'r prif ffyrdd rydyn ni'n hybu rhagor o gynnydd yn y maes hwn ydy drwy gasglu data ynghylch pa wasanaethau rhaglenni ar-alwad – a pha gyfran o raglenni ar y gwasanaethau hynny – sydd ag is-deitlau, arwyddo a disgrifiadau sain. Mae hyn yn bwysig oherwydd ei fod yn caniatáu i Ofcom (yn ogystal â'r diwydiant a defnyddwyr) fesur y cynnydd o ran sicrhau bod y gwasanaethau hyn yn hygyrch. Mae cyhoeddi'r data hwn yn helpu defnyddwyr i wneud dewisiadau gwybodus ynghylch pa wasanaethau rhaglenni ar-alwad maen nhw'n eu gwyllo a'r llwyfannau (ee gwefan, ap neu flwch pen-set) maen nhw'n eu defnyddio i wneud hynny.
- 1.4 Yn 2016 roedden ni wedi ymgynghori² ynghylch cynigion i newid y ffordd rydyn ni'n casglu ac yn cyhoeddi data am hygyrchedd gwasanaethau rhaglenni ar-alwad. Nod y cynigion oedd dod â'r broses hon yn nes at sut mae Ofcom yn casglu ac yn cyhoeddi data am hygyrchedd darlledu. Roedden ni hefyd wedi ceisio sicrhau bod y data sy'n cael ei gasglu yn ddigon manwl i fod yn ystyrlon i ddefnyddwyr.
- 1.5 Carai Ofcom ddiolch i'r rheini a ymatebodd i'r ymgynghoriad. Caiff eu sylwadau eu crynhoi yn adran 2, ynghyd ag ymatebion Ofcom iddynt, a'n penderfyniadau. Yn gryno, mae Ofcom wedi penderfynu:
 - mynnu bod darparwyr gwasanaethau rhaglenni ar-alwad yn cyflwyno data am wasanaethau mynediad ddwywaith y flwyddyn yn unol â'r gofyniad presennol ar ddarlledwyr teledu;
 - ei gwneud hi'n ofynnol i ddarparwyr gwasanaethau rhaglenni ar-alwad gyflwyno data o dan adran 368O o'r Ddeddf;
 - mynnu bod darparwyr gwasanaethau rhaglenni ar-alwad yn cyflwyno data am bob gwasanaeth â brand maen nhw'n ei gynnig i ddefnyddwyr;
 - eithrio darparwyr gwasanaethau i 'oedolion' o'r gofyniad i ddarparu data; a
 - cyhoeddi'r data sy'n cael ei gasglu ddwywaith y flwyddyn, fel sy'n cael ei wneud ar hyn o bryd ar gyfer gwasanaethau teledu darlledu.

¹ <https://www.ofcom.org.uk/tv-radio-and-on-demand/information-for-industry/on-demand/access-services-european-works>

² <https://www.ofcom.org.uk/consultations-and-statements/category-1/on-demand-accessibility>

- 1.6 Mae'r datganiad hwn hefyd yn datgan, er gwybodaeth, ffyrdd eraill y mae Ofcom yn bwriadu hybu gwell hygrychedd ar gyfer gwasanaethau rhaglenni ar-alwad. Mae'r rhain yn cynnwys:
- parhau i weithio gyda grwpiau defnyddwyr i ganfod beth sydd bwysicaf i ddefnyddwyr yn y maes hwn; a
 - parhau i weithio gyda'r diwydiant i ddod o hyd i'r hyn sy'n rhwystro gwasanaethau rhaglenni ar-alwad rhag bod yn fwy hygrych.
- 1.7 Rydyn ni hefyd yn nodi er gwybodaeth sut rydyn ni'n bwriadu cyflawni ein dyletswydd statudol i sicrhau bod darparwyr gwasanaethau rhaglenni ar-alwad yn hyrwyddo rhaglenni sy'n tarddu o Ewrop, a elwir yn 'waith Ewropeaidd'. Mae'r cynlluniau hyn yn cynnwys cyhoeddi arweiniad i ddarparwyr gwasanaethau rhaglenni ar-alwad ynghylch y diffiniad o 'waith Ewropeaidd' a chasglu data am gynhyrchu, a chael gafael ar waith Ewropeaidd ar wasanaethau rhaglenni ar-alwad.